

## **Cyfrifeg a Chyllid.**

**Amser - naw deg munud**

**DYLECH ATEB DAU GWESTIWN YN UNIG o blith y pedwar;  
mae'r holl gwestiynau yn gyfwerth eu marciau.**

**Dangoswch yn glir sut y daethoch i'ch atebion.**

**Datganwch unrhyw ragdybiaethau a wnewch, a'u hesbonio.**

**Cewch ddefnyddio cyfrifiannell nad oes modd ei rhaglennu.**

---

## **CWESTIWN 1**

Atebwch **BOB** Rhan

Dyma grynodeb o ddatganiadau ariannol Wm Morrison Supermarkets ccc am y blynyddoedd a ddaeth i ben ar 31 Ionawr 2016 a 2015.

### **Datganiad o incwm am y blynyddoedd a ddaeth i ben 31 Ionawr:**

	<b>2016</b>	<b>2015</b>
	£'000	£'000
Trosiant	16,122	16,816
Cost gwerthiannau	<u>-15,505</u>	<u>-16,055</u>
Elw gros	617	761
Costau gweinyddol	<u>-303</u>	<u>-1,457</u>
Elw/colled weithredol	314	-696
Costau cyllid	-112	-105
Incwm cyllid	15	9
Elw/colled ar weithgareddau arferol cyn treth	217	-792
Treth ar elw ar weithgareddau arferol	<u>-5</u>	<u>31</u>
Elw/colled ar weithgareddau arferol ar ôl treth	<b>212</b>	<b>-761</b>

### **Mantolen ar 31 Ionawr :**

	<b>2016</b>	<b>2015</b>
	£'000	£'000
Asedau anghyfredol	7,991	7,943
Asedau cyfredol		
Stociau	616	658
Dyledwyr	192	239
Arall	12	90
Arian parod	<u>488</u>	<u>241</u>
	1,308	1,228
Rhwymedigaethau cyfredol		
Credydwyr masnach	2,518	2,221
Rhwymedigaethau eraill	<u>229</u>	<u>52</u>
	2,747	2,273
Rhwymedigaethau anghyfredol	2,796	3,304
Asedau net	<b><u>3,756</u></b>	<b><u>3,594</u></b>
Cronfeydd cyfranddalwyr ecwitiol	<b><u>3,756</u></b>	<b><u>3,594</u></b>

Rhagor o wybodaeth:

	<b>2016</b>	<b>2015</b>
Cyfranddaliadau awdurdodedig	2,332.5m	2,332.5m
Difidend a Dalwyd	£260,000	£308,000

**Mae angen:**

- a. O'r wybodaeth uchod, cyfrifo'r cymarebau ariannol sydd, yn eich barn chi, fwyaf priodol i bwysu a mesur sefyllfa ariannol Wm Morrison Supermarkets ccc ar 31 Ionawr 2016 a 2015. Dylech gyfrifo wyth cymhareb o leiaf, gan roi'r fformiwlâu yn amlwg ac yn dangos yr holl waith cyfrifo perthnasol.  
**(16 marc)**
- b. Dehonglwch ganlyniadau'ch gwaith cyfrifo i ran (a) uchod a rhowch eich sylwadau arnynt. Nodwch pa wybodaeth ychwanegol y byddai ei hangen arnoch er mwyn gallu cynnal y dadansoddiad hwnnw yn fanylach.  
**(8 marc)**
- c. Trafodwch yn gryno beth yw cyfyngiadau dadansoddi cymarebau cyfrifon ariannol.  
**(6 marc)**

## CWESTIWN 2

Dyma fantolen brawf Ruby Cyf i'r flwyddyn a ddaeth i ben 31/12/2015:

	Dr	Cr
	£'000	£'000
Croniadau		160
Costau gweinyddu	205	
Darpariaeth drwgddyledion		10
Banc	90	
Dibrisio cronedig ar geir hyd at 31/12/2015		44
Ceir yn ôl y gost	88	
Credydwy		786
Dyledebau i'w had-dalu ar 31/12/2040		200
Cyflogau uniongyrchol	120	
Llog a dalwyd	80	
Tir ac adeiladau yn ôl y prisiad ar 31/12/2014	130	
Dibrisio cronedig ar gyfarpar ac offer hyd at 31/12/2014		250
Cyfarpar ac offer yn ôl y gost	1,000	
Blaendaliadau	45	
Pryniadau	1,350	
Elw a gedwir ar 31/12/2014		388
Cronfa ailbriso ar 31/12/2014		30
Gwerthiannau		2,720
Costau dosbarthu	250	
Cyfalaf cyfranddaliadau (cyfranddaliadau cyffredin £1.00)		1,170
Stoc ar 31/12/2014	2,100	
Dyledwyr masnach	300	
	5,758	5,758

Daeth i'r amlwg nad oedd y wybodaeth ychwanegol isod wedi'i chynnwys wrth baratoi'r fantolen brawf hon:

- i. Cyhoeddodd y cwmni 10,000 o gyfranddaliadau newydd am arian parod am £9.50 fesul cyfranddaliad ar 31/12/2015, gan gael y derbyniadau am y cyfan ar yr un diwrnod. Roedd £8.50 o bremiwm cyfranddaliadau wedi'i gynnwys ym mhri y cyfranddaliadau, sef £9.50.
- ii. Ar ôl asesiad terfynol o'r stoc ar 31/12/2015, prisiwyd y stoc ar isafswm y gost a'r gwerth gwireddadwy net ar £2,000,000.

- iii. Darparwyd ar gyfer dibrisio ar gyfarpar ac offer i ddiddymu'r gost ar sail llinell syth dros 20 mlynedd. Rhoddir y dibrisiad hwn i gost y gwerthiannau. Gallwch dybio nad oes gan yr offer ddim gwerth gweddilliol, ac nad oedd yr eitem o gyfarpar nac offer yn hŷn na 19 blwydd oed ar 1/1/2015.
- iv. Ar 31/12/2015 prisiwyd y tir a'r adeiladau yn ôl y farchnad, sef £100,000. Mae'r Cyfarwyddwyr yn bwriadu ymgorffori'r prisiad hwnnw yn y datganiadau ariannol.
- v. Y bil trydan misol diweddaraf, am £1,000, a gafodd ei gynnwys yn y treuliau gweinyddol, oedd yr un am fis Hydref 2015.
- vi. Ar 31/12/2015 cymerodd y cwmni fenthyciad dyledebau ychwanegol am £100,000 i'w ad-dalu ar 31/12/2040, ac fe ad-dalodd y cwmni fenthyciad dyledebau a oedd yn ddyledus, sef £20,000.
- vii. Amcangyfrifir mai £150,000 fydd y dreth a godir am y flwyddyn.

### **Mae angen**

- a. Defnyddio cyfrifon cofnodi dwbl i gofnodi effeithiau'r eitemau i) i vii) uchod. **(10 marc)**
- b. Paratoi datganiad incwm i'r flwyddyn a ddaeth i ben ar 31/12/2015, ynghyd â mantolen i'r dyddiad hwnnw, gan ymgorffori'r wybodaeth a roddwyd yn fantolen brawf ynghyd ag effeithiau'r eitemau i) i vii). **(20 marc)**

### **CWESTIWN 3**

Dechreuwyd busnes Spotty Cyf ar 1 Ionawr 2016 a daeth ei flwyddyn i ben ar 31 Rhagfyr 2016. Dyma drafodion Spotty Cyf yn ystod y flwyddyn.

- i. Cafodd Spotty Cyf gronfeydd am gyfalaf cyfranddaliadau, sef £500,000 ar 1 Ionawr 2016
- ii. Rhoddodd Mrs. Harris fenthyc £300,000 i'r cwmni yn dechrau ar 1 Ionawr 2016, am 5% y flwyddyn. Byddai'r llog yn cael ei dalu bob yn chwe mis, sef ar 1 Gorffennaf 2016 a 1 Ionawr 2017
- iii. Talodd Spotty Cyf £2,000 mewn arian parod am hysbysebu yn 'The Wyth News' ar 1 Gorffennaf 2016.
- iv. Yn ystod y flwyddyn prynodd Spotty Cyf gyfanswm o 20,000 uned o ddeunydd am £2 fesul uned. Roedd angen dwy uned i gynhyrchu un eitem o nwyddau gorffenedig. Defnyddiodd Spotty Cyf bob un o'r unedau hyn i gynhyrchu 10,000 uned o nwyddau gorffenedig erbyn 31 Rhagfyr 2016.
- v. Talwyd cyfanswm o £15,000 mewn arian parod am gostau'r gwres a'r goleuadau am y flwyddyn
- vi. Amcangyfrifwyd y byddai gwerth £3,000 o gostau gwres a goleuadau ychwanegol yn cael eu defnyddio yn ystod y flwyddyn, ond ni thalwyd amdanynt erbyn 31 Rhagfyr 2016
- vii. Gwerthwyd 5,000 o unedau o'r nwyddau gorffenedig i gwsmeriaid am £10 yr un ar sail credyd
- viii. Erbyn 31 Rhagfyr 2016 roedd Spotty Cyf wedi cael £50,000 mewn arian parod am werthu'r nwyddau gorffenedig yn (vii) uchod.
- ix. Gwerthwyd 1,500 o nwyddau gorffenedig i gwsmeriaid am £15 yr un fel gwerthiannau arian parod.
- x. Talwyd y cyflogau i'r cyfnod o fis Ionawr i fis Tachwedd, sef £11,000 ond roedd costau cyflogres mis Rhagfyr, sef £1,000, heb eu talu
- xi. Ar ddiwedd y flwyddyn cynhaliwyd arolwg o'r stoc. Yn yr arolwg hwnnw cafwyd bod 3,500 uned o stoc orffenedig wedi'u prisiao ar £5 fesul uned.

#### **Mae angen:**

- a) Cyflwyno'r trafodion uchod ar ffurf cyfrifon T. **(17 marc)**
- b) Paratoi mantolen brawf i Spotty Cyf i'r flwyddyn a ddaeth i ben 31 Rhagfyr 2016. **(13 marc)**

#### **CWESTIWN 4**

I ateb cwestiwn 4, dylech roi cynnig ar DDWY o'r rhannau isod (15 marc sydd ar gael i bob un, sef cyfanswm o 30 marc):

- i) Gofynnwyd i chi ystyried cyflogi naill ai cyfrifydd ariannol neu gyfrifydd rheoli, ond nid y ddau.

Beth yw'r gwahaniaeth rhwng y ddwy swydd, ac os oes un sy'n bwysicach na'r llall, p'un yw honno? **(15 marc)**

- ii) I ariannu'ch astudiaethau yn y brifysgol y flwyddyn nesaf, rydych wedi penderfynu buddsoddi'r arian a gawsoch am eich pen-blwydd yn 18 oed mewn portffolio o gyfranddaliadau, ac wedi ymchwilio i sawl cwmni ac adolygu eu Hadroddiadau Blynyddol.

a. Disgrifiwch yn gryno y math o wybodaeth a geir mewn Adroddiad Blynyddol **(2 marc)**

b. Mae'r IASB yn dweud bod saith grŵp sy'n defnyddio gwybodaeth ariannol - rhestrwch y saith. **(3 marc)**

c. I bedwar o'r grwpiau o ddefnyddwyr uchod, disgrifiwch sut y defnyddient y wybodaeth o Adroddiad Blynyddol a rhowch enghreifftiau o sut y gallai hynny wrthdaro ag 'aelodau'r cwmni'. **(10 marc)**

**(Cyfanswm: 15 marc)**

- iii) Rhowch esboniad a thrafodaeth ar yr effaith bosib y gallai'r polisiâu cyfrifeg a ddewisir ar gyfer dibrisio a phrisio rhestr eiddo ei chael ar y fantolen a'r ffigurau elw a cholled mewn cwmni gweithgynhyrchu canolog ei faint.

Defnyddiwch enghreifftiau rhifyddol i ategu'ch ateb.

**(15 marc)**

- a) Weithiau mae cwmnïau proffidiol wedi mynd yn fethdalwyr, ac weithiau mae gwargedion sylweddol o arian parod gan gwmnïau sy'n gwneud colledion. Esboniwch y rhesymau am yr anghysondeb ymddangosiadol hwn. **(15 marc)**